| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 27 Mehefin 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Adroddiad Cyllid (Mai 2023/24) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023/24.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod aelodau'n cymeradwyo'r cynlluniau i ddarparu cyllid cyfatebol i gefnogi Cynllun Grant Cartrefi Gweigion er mwyn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, fel y nodir yn adran 6.9 ac Atodiad 5.

3.3 Bod Aelodau'n nodi'r defnydd o arian at raid y Rhaglen Gyfalaf i dalu am y gorwariant a ragwelir ar gynllun cyfalaf Depo'r Gerddi Botanegol (Cam 1) fel y nodir yn adran 6.10.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw’r Cyngor ar gyfer 2023/24 fel nodir yn Atodiad 1. Bydd yr Adroddiad Crynhoi’r Gyllideb llawn ar gyfer 2023/24 sy’n darparu manylion cyllideb refeniw’r cyngor gan gynnwys crynodeb o gyllidebau adrannol yn cael ei rhannu yn un o gyfarfodydd y Cabinet yn y dyfodol, sydd wedi cael ei oedi yn sgil y gwaith sydd angen ei wneud er mwyn adlewyrchu strwythur newydd y Cyngor o fis Ebrill 2023 a’r gwaith ychwanegol ar Ddatganiad Cyfrifon 2021-22.

Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 22/23). Rhagwelir y bydd gorwariant o £3.348 miliwn ar sefyllfa cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol. Bydd angen i wasanaethau adolygu gwariant ac incwm yn eu meysydd yn barhaus er mwyn lliniaru effaith y gorwariant cyllidebol cyffredinol. Amlinellir cefndir y risgiau a’r rhagdybiaethau cyfredol sy’n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6 ac Atodiad 2.

Roedd cyllideb 2023/24 yn gofyn am ddod o hyd i, a chytuno ar, £8.172 miliwn o arbedion ac effeithlonrwydd fel y nodir isod:

- Lleihau’r Gyllideb Ariannu Cyfalaf a’r Gyllideb Cronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol (£2.267 miliwn)
- Effaith adolygiad actiwaraidd pob tair blynedd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£3.828 miliwn)
- Arbedion o ddarparu’r gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau’n fewnol eto (£0.300 miliwn)
- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â’r polisi Ffioedd a Thaliadau y cytunwyd arno (£0.423 miliwn).
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£0.538 miliwn) wedi’u nodi’n bennaf gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Gofynnwyd hefyd i ysgolion gynllunio ar gyfer 1% o effeithlonrwydd (£0.816 miliwn).

Tybir bod yr arbedion corfforaethol a gweithredol, a’r cynnydd mewn ffioedd a thaliadau wedi’u cyflawni.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Manylir ar naratifau gwasanaethau sylweddol sy'n egluro amrywiadau a risgiau yn Atodiad 2, ond dylid nodi'r canlynol hefyd:

**6.1 Cyllidebau Corfforaethol** – Er y rhagwelir ar hyn o bryd y byddwn yn mantoli'r gyllideb, mae'n anodd mesur y risgiau canlynol gan ei bod yn gynnar yn y flwyddyn:

- Setliadau cyflog ar gyfer 2023/24
- Galw ar gronfeydd arian at raid ar gyfer ynni a phwysau chwyddiannol eraill (gweler 6.1)

Bydd y rhain yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf.

**6.2 Y Gwasanaeth Addysg a Phlant -** Er bod pwysau ychwanegol o £2.7 miliwn wedi'i dderbyn fel rhan o gyllideb 2023/24 y cytunwyd arni, mae hwn yn dal yn faes sy'n peri pryder. Y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw £1.6 miliwn o orwariant yn sgil pwysau yn y maes gofal cymdeithasol plant.

**6.3 Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Digartrefedd -** Er bod pwysau ychwanegol o £8.187 miliwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2023/24, mae hwn yn dal yn faes sy'n peri pryder. Y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw £1.664 miliwn yn sgil pwysau o ganlyniad i gostau lleoli (£1.5 miliwn) a (£0.2 miliwn) yn y maes Digartrefedd.

**6.4 Ysgolion** – Roedd y gyllideb y cytunwyd arni gan y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £3.03 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd i grantiau gan Lywodraeth Cymru). Y cyfnod monitro cyntaf ar gyfer ysgolion yw diwedd mis Mehefin pan fyddant yn cyflwyno adroddiadau monitro manwl. Mae balansau ysgolion a ddygwyd ymlaen i

2023/24 yn parhau i fod yn uchel iawn gyda balans net o £8.939 miliwn, sy'n cynrychioli gostyngiad o £3.509 miliwn yn y balans a ddygwyd ymlaen i 2022/23, sef £12.448 miliwn. Bydd cydweithwyr Addysg a Chyllid yn gweithio'n agos i helpu i sicrhau bod y balansau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd amserol ac effeithiol. Mae gorwariant bychan o £169,000 ar gyllidebau sydd heb eu dirprwyo.

**6.6 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**. Mae'r sefyllfa refeniw diweddaraf yn rhagdybio y bydd gostyngiad mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £818,000 o'i gymharu â £922,000 adeg y cymeradwywyd y gyllideb. Mae'r symudiad yn ymwneud â gostyngiad yn incwm rhenti amcangyfrifedig, a gaiff ei gydbwyso gan gyfraniad is at raglen gyfalaf y CRT. Felly rhagwelir y bydd balansau'r CRT yn £750,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb Gyfalaf o £19.5 miliwn yn adlewyrchu cyfraniad refeniw is.

**6.6 - Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Mai, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £250.143 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.18%. Roedd balansau buddsoddi yn £13 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.38%.

**6.8** Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor i'w weld yn Atodiad 3. Mae'r Cynllun Cyfalaf cymeradwy yn £104.5 miliwn gyda'r gwariant hyd yma'n £4.9 miliwn. Mae Atodiad 4 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol.

**6.9** Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf wedi adolygu a chefnogi achos busnes ar gyfer gwariant cyfalaf o £178,000 fel cyfraniad cyllid cyfatebol at ddyraniad tybiedig Cynllun Grant Cartrefi Gweigion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru o £1.78 miliwn dros 2 flynedd. Y cynnig yw gweithredu cynllun tai gwag gan ddarparu cefnogaeth i alluogi defnydd i gael ei wneud unwaith eto o eiddo gwag fel prif ac unig fan preswyl perchennog yr eiddo. Nodir y cynigion yn Atodiad 5, a chânt eu hargymell yn 3.2.

**6.10** Rhagwelir y bydd gorwariant o £186,000 (21%) ynghlwm â phrosiect Depo'r Gerddi Botanegol (Cam 1) sydd wedi'i gynnwys o fewn y rhaglen gyfalaf (£880,000) yn sgil oedi a chynnydd mewn costau materol. Mae'r cynllun bron â chael ei gwblhau a bydd y gorwariant yn cael ei ariannu gan ddefnyddio'r arian at raid o fewn y rhaglen gyfalaf, sydd ar hyn o bryd yn £764,000.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ei gyflwyno i'r Cyngor ar 25 Ionawr.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae proses y gyllideb ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cynlluniau i ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae lefel sylweddol y gorwariant ar draws y gwasanaethau yn bryder mawr yn y flwyddyn bresennol ac ar gyfer y tymor canolig. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y meysydd gwasanaeth penodol hyn dros y blynyddoedd diwethaf, a disgwylir y bydd yr angen hwnnw'n parhau. Mae'r pwysau cychwynnol eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a bydd y rhain yn cael eu hadolygu; bydd y pwysau ar y gwasanaethau hyn yn cael ei adolygu dros y misoedd nesaf. Mae'n ymddangos bod yr arian a gedwir wrth gefn yn gorfforaethol yn ddigon i dalu am bwysau'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ond disgwylir y bydd risgiau a phwysau pellach yn y misoedd nesaf sy'n ymofyn camau rheoli cadarnhaol er mwyn lleihau gwariant yn ystod y flwyddyn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'n parhau i fod yn gyfnod ariannol heriol iawn ac mae'r materion gwasanaeth arbennig hyn, ynghyd â phwysau chwyddiant drwy'r holl wasanaethau, yn dod yn fwyfwy anodd eu hariannu wrth i'n cyllid fethu dal i fyny â'r pwysau o ran chwyddiant, gwasanaethau a demograffeg. Mae lefel y pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn yn debygol o leihau lefel yr arian wrth gefn i lefel y bydd yn rhaid ei hailgyflenwi o fewn y broses gyllidebol ar gyfer

2024/25. Er bod y rhagolygon ariannol yn edrych yn ansicr, mae gan y Cyngor broses gyllidebol gadarn sy’n helpu i nodi’r pwysau hyn ac arbedion a dulliau ariannu a fydd yn helpu i gynnal cyflwr ariannol y Cyngor i’r dyfodol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.